



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Llun, 16 Tachwedd 2020 am 2.00 pm

Yn bresennol: Y Cyngorydd Wendy Lewis (Cadeirydd) fu'n llywyddu

Sefydliadau â Chynrychiolwyr

Stephen Boswell	Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd
Seamus Brennan	Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Jackie Davies	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Rob Denman	Gwasanaeth Carcharau
Pat Dunmore	Cyngor ar Bopeth
Capten Chris Evans	Catrawd Trafnidiaeth Cymru
Arweinydd Sgwadron	Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cangen Abertawe
Phil Flower	
Steve Fry	Dirprwy Raglaw
Grace Halfpenny	Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog
Thomas Hall	Blesma
Claire Jones	Canolfan Byd Gwaith
Finola Pickwell	Hafal
Y Cyngorydd Alyson Pugh	Cyngor Abertawe
Rob Salmon	Ail-weithredu
Tom Sloan	Rygbi'r Gweilch
John Williams	Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Swyddogion

Gareth Borsden	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
David Price-Deer	Rheolwr Digwyddiadau Arbennig
Spencer Martin	Cydlynnydd Comisiynu'r Trydydd Sector a Chronfeydd Ymddiriedolaeth

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Alyx Baharie, Louise Fleet, Debbie Hamer, Natalie McCombe, David Trotman, Nick Vanderpump, Victoria Williams a Sian Woodland

84 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Dim.

85 Cofnodion.

Penderfynwyd cytuno bod cofnodion y Panel a gynhaliwyd ar 14 Medi 2020 yn gofnod cywir.

86 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.

Dywedodd Grace Halfpenny fod gweithgareddau a digwyddiadau cyfnod y Cofio eleni wedi bod yn wahanol iawn i'r rhai arferol oherwydd pandemig COVID-19 eleni, gyda llawer o ddigwyddiadau 'rithwir' yn cael eu cynnal ar-lein.

Nododd fod yr holl ddigwyddiadau gosod torchau go iawn a digwyddiadau tebyg wedi'u cynnal yn unol â chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru.

Dywedodd fod yr aelod o staff a benodwyd yn ddiweddar i rôl prosiect ysgolion Llywodraeth Cymru wedi gadael ei swydd yn anffodus, ond bydd aelod newydd o staff yn dechrau yn y flwyddyn newydd.

Dywedodd hefyd ei bod yn bwriadu cyfarfod â Llywodraeth Cymru cyn bo hir i drafod y mater o geisio gwella'r cyfathrebu rhyngddynt hwy a grwpiau a sefydliadau cyn-filwyr.

Cyhoeddodd Finola Pickwell fod pythefnos ar ôl i wneud cais am grantiau ar gyfer prosiectau dan y cynlluniau llwybrau cadarnhaol a *Force for Change*, sy'n ymdrin â materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a lles cyn-filwyr.

Dywedodd ei bod yn hapus i gysylltu ag unrhyw grwpiau a'u cefnogi gyda cheisiadau am gyllid.

Nododd y disgwylir cyhoeddiad ar rownd 3 y cynlluniau ariannu yn fuan.

87 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Cefnogodd Capten Chris Evans y sylwadau a wnaed ynglŷn â chyfnod y Cofio a nododd fod dros 120 o bobl wedi mynychu'r orymdaith 'rithwir'.

Amlinellodd fod y cronfeydd wrth gefn bellach wedi dychwelyd i hyfforddiant wyneb yn wyneb yn unol â phrotocolau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Nododd fod gan Gatrawd 157 4 swyddog ar hyn o bryd sy'n cefnogi byrddau iechyd ledled Cymru.

Dywedodd mai dim ond recriwtio ar-lein sy'n parhau am y tro ond nododd fod y cynllunio ar gyfer digwyddiadau yn 2021 yn parhau fel arfer.

88 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Fforwm y Lluoedd Arfog.

Amlinellodd Jackie Davies fod y bwrdd iechyd wedi cynnal ei fforwm lluoedd arfog yr wythnos diwethaf, y cyfarfod rhithwir oedd y cyfarfod cyntaf a gafwyd ers cyhoeddi'r cyfyngiadau symud COVID cychwynnol.

Dywedodd fod llawer o'r gwaith sy'n ymwneud â chyn-filwyr, plant gwasanaeth, hyrwyddwyr wardiau etc. wedi gorfod cael ei ohirio oherwydd COVID a'i effaith enfawr ar y gwasanaeth iechyd.

Amlinellodd Grace Halfpenny ei bod wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod, lle cafwyd cyflwyniad ardderchog gan GIG Cymru i Gyn-filwyr, y byddai'n ei ddsbarthu i aelodau'r panel ar ôl y cyfarfod.

Dywedasant fod ymgynghoriadau rhwng meddygon a chleifion yn parhau ond eu bod ar-lein/yn rhithwir yn bennaf, a gall hyn fod yn broblem i rai cyn-filwyr nad oes ganddynt yr offer TG angenrheidiol.

Mae GIG Cymru i Gyn-filwyr yn archwilio ffyrdd o gefnogi cyn-filwyr gyda'r mater hwn ac yn ceisio cynorthwyo gyda'r ddarpariaeth a mynediad at ddyfeisiau IT perthnasol. Mae posibilrwydd y bydd rhywfaint o arian grant ar gael ar gyfer hyn drwy gronfeydd elusennol y GIG, a fydd yn cael eu harchwilio.

Amlinellodd y Cynghorydd Alyson Pugh fod potensial i gysylltu â gwasanaethau dysgu gydol oes a llyfrgelloedd y cyngor i ddarparu hyfforddiant ac offer TG i gyn-filwyr.

89 Re-Act Organisation.

Amlinellodd Rob Salmon, sydd wedi bod yn wirfoddolwr gyda'r sefydliad ers 2015, hanes cefndir y sefydliad a adwaenir yn swyddogol fel Tîm Rubicon.

Amlinellodd fod y sefydliad yn ymateb i argyfyngau dyngarol a thrychinebau ledled y byd ac yn anfon ei bobl i gynorthwyo'r cymunedau hynny mewn angen. Amlinellodd fod y timau'n mynd â'u holl offer a'u cyflenwadau eu hunain pan gânt eu lleoli.

Amlinellodd fod cyn-filwyr yn ychwanegiad braf i'w grŵp gwirfoddoli oherwydd eu hagwedd, eu sgiliau a'u brwdfrydedd dros ddatrys problemau ac ymdrin â sefyllfaoedd anodd.

Amlinellodd y lefel bresennol o wirfoddolwyr o fewn y sefydliad a'r math a'r meysydd cymorth a ddarparwyd yn y DU a thramor.

Ceir rhagor o fanylion am y sefydliad a sut i wirfoddoli yn <https://www.re-act.org.uk/>

90 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.

Cyngor Abertawe

Amlinellodd a manylodd y Cadeirydd ar weithgareddau a digwyddiadau Dydd y Cofio yr oedd hi wedi bod yn rhan ohonynt. Diolchodd i'r holl sefydliadau dan sylw am eu cymorth a'u cefnogaeth dros y cyfnod ac amlinellodd, er gwaethaf yr anawsterau mewn perthynas â COVID a chyfnod atal byr Llywodraeth Cymru, ei bod yn teimlo bod y digwyddiadau wedi bod yn deimladwy ac yn barchus.

Nododd mai ei huchafbwynt personol oedd y seremoni gosod torchau ar wasanaeth trên GWR Paddington.

Amlinellodd y Cynghorydd Alyson Pugh, mewn perthynas ag Abertawe'n Gweithio a materion 'cyflogadwyedd' a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf, fod llawer o waith y tu ôl i'r llenni yn parhau gyda swyddogion a sefydliadau partner. Y prif newid hyd yma oedd diwygio'r geiriad ar y ffurflen o 'ydych chi'n gyn-filwr' i 'ydych chi wedi gwasanaethu'. Amlinellodd y rhesymeg y tu ôl i'r newid. Croesawodd aelodau'r panel y newid a'i gefnogi.

Amlinellodd hefyd fod y cysylltiad â'r carchar ar waith unwaith eto, gyda chyfarfodydd ar-lein.

CGG Abertawe

Amlinellodd Grace Halfpenny, ar ran Alex Baharie, fod cyllid partneriaid y trydydd sector ar gael ar gyfer eitemau cyfalaf i addasu gwasanaethau yn ystod pandemig COVID. Gall yr arian dalu costau ôl-weithredol yn ôl i fis Ebrill 2020. Mae CGGA yn defnyddio dull iechyd a lles eang wrth ymdrin â cheisiadau.

Mae manylion a ffurflen ar gael yn <https://www.scvs.org.uk/News/icf-covid-grant-sept20>

Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Amlinellodd Phil Flower fod digwyddiadau a gwasanaethau Dydd y Cofio eleni wedi bod yn gwbl wahanol i flynyddoedd blaenorol a'i fod wedi bod yn gyfnod anodd i'r LIBF a sefydliadau eraill.

Roedd y materion ynghylch COVID, y cyfnod atal byr, mesurau cadw pellter cymdeithasol, hunanynysu, gwarchod etc. wedi cael effaith aruthrol ar ddigwyddiadau ac yn arbennig ar yr apeliadau a'r casgliadau pabi arferol yn ardal Abertawe ac o'i chwmpas.

Nododd fod y gwasanaeth blynyddol yn y Santes Fair wedi bod yn barchus ac yn deimladwy er gwaethaf y niferoedd gostyngol iawn.

Dywedodd fod y cadetiaid awyr ar hyn o bryd yn dychwelyd i hyfforddiant fesul cam a gobeithio y byddant yn aildechrau gweithgareddau wyneb yn wyneb yn y flwyddyn newydd, gan gydymffurfio â holl ganllawiau COVID.

Arglwydd Raglaw

Amlinellodd Steve Fry (Dirprwy Raglaw) fod yr Arglwydd Raglaw wedi gofyn iddo ei chynrychioli yng nghyfarfodydd y panel yn ddiweddar, ac arwain ar faterion sy'n ymwneud â chyfamod y lluoedd arfog. Roedd yn falch o fod yn bresennol ac amlinellodd ei fod ar fin symud rolau o'r Llynges Frenhinol Wrth Gefn i'r Llu Awyr Wrth Gefn.

Carchar Abertawe

Amlinellodd Rob Denman (Dirprwy Lywodraethwr) ei fod hefyd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf o'r panel. Cyfeiriodd at y cyfnod eithriadol o anodd y bu'n rhaid i'r carchar a'i garcharorion a'i staff fynd drwyddo oherwydd pandemig COVID.

Amlinellodd fod y pandemig wedi cyfyngu'n ddifrifol ar ymwelwyr â'r carcharorion a'r gweithgareddau a gynhaliwyd y tu mewn i'r dynion.

Amlinellodd fod cymorth i gyn-filwyr o fewn y system carchardai yn parhau i fod yn broblem.

Diolchodd i'r sefydliadau partner a rhanddeiliaid hynny am eu cymorth a'u cymorth parhaus yn ystod y pandemig ac amlinellodd mai'r bwriad oedd, yn amodol ar ganllawiau a chyngor COVID, i gael y bobl a'r sefydliadau perthnasol yn ôl i'r carchar i gefnogi'r carcharorion cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosib.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.40 pm

Cadeirydd